



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

LLAWLYFR MODIWL

ECAD4003C

**Cyflwyniad i Wybodaeth, Sgiliau a Dealltwriaeth
o Iaith a Mathemateg**

**BA ADDYSG GYNRADD
gyda Statws Athro Cymwysedig**

Lefel 4

Y GYFADRAN ADDYSG ATHRAWON

2017-2018

1. Manylion Cysylltu

Os bydd angen trafod rhywbeth sy'n ymwneud â'r cwrs arnoch, cysylltwch â:

Linda Davies (Cydlunydd Modiwl) l.davies@uwtsd.ac.uk 01267 676682

2. Ein disgwyliadau

Gobeithiwn y byddwch yn mwynhau'r modiwl a'r rhaglen ac rydym yma i'ch helpu.

Dylech:

- wneud defnydd da o gyfleusterau ac adnoddau'r Brifysgol
- fynychu a chymryd rhan mewn sesiynau
- ymddwyn yn gyfrifol
- gyflwyno aseiniadau erbyn y dyddiad terfyn
- ymroi a chymryd rhan ym mhob sesiwn.

Darllenwch Reoliadau'r Brifysgol i Fyfyrwyr.

AMCAN

- Rhoi i'r myfyrwyr y wybodaeth, y sgiliau a'r dealltwriaeth sydd eu hangen i addysgu iaith a mathemateg yn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2.

DEILLIANNAU DYSGU

Erbyn diwedd y modwl hwn dylai myfyrwyr allu:

- arddangos dealltwriaeth o gwmpas, natur a diben iaith a Mathemateg yn y Cwricwlwm Cenedlaethol;
- arddangos digon o wybodaeth a dealltwriaeth ynghylch iaith a Mathemateg i addysgu'n briodol yn yr ysgol gynradd, gan ddefnyddio ystod o strategaethau dysgu ac addysgu effeithiol;
- arddangos dealltwriaeth o'r sgiliau addysgeg sydd eu hangen i ddysgu ac addysgu iaith a Mathemateg yng Nghymru;
- trefnu eu gwybodaeth a'r hyn a ddysgant trwy ddefnyddio ystod o ffynonellau gwybodaeth a chyflwyno'u gwaith ar y lefel briodol.

Efallai bod cynllun y modwl hwn yn wahanol i foddlau eraill sy'n gyfarwydd i chi am fod DAU LINYN ar wahân yn y modwl hwn :

- **Iaith (yn cynnwys Cymraeg a Saesneg)**
- **Mathemateg**

Tra bod modd ystyried y rhain yn bynciau ar wahân, byddwn yn pwysleisio pwysigrwydd integreiddio rhifedd a llythrennedd yn drawsgwricwlaidd.

Gan mai cwrs o fewn Addysg Uwch yw hwn bydd disgwyl i chi ddarllen o amgylch testunau a datblygu'n ddysgwr annibynnol a hunan cyfeiriedig. Yn ogystal â setiau ar wahân o ddarlithiau'n seiliedig ar bynciau, fe gewch hefyd dasgau y bydd disgwyl i chi eu cyflawni CYN pob sesiwn. Mae'n hanfodol eich bod yn cyflawni'r gwaith darllen neu'r dasg/tasgau er mwyn gwneud y mwyaf o'r sesiynau mwy ffurfiol. Bydd eich darlithydd yn archwilio eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth yn ymwneud â'r dasg yn ystod y sesiwn, felly gwnewch yn siŵr eich bod yn paratoi cyn dod. Eich cyfrifoldeb chi yw DARLLEN y llawlyfr hwn ac ymgyswrtu â disgwyliadau'r modwl.

Darllen cefndirol hanfodol / tasgau - Iaith a Llythrennedd Cymraeg

Darperir tasgau cyn ac ôl-sesiwn fel y bo'n briodol yn ystod y modwl. Fodd bynnag, fel agwedd barhaus o ddatblygiad, fe'ch anogir i ehangu eich gwybodaeth o **lenyddiaeth plant**.

Os gwelwch yn dda ewch ati i gadw rhestr o lyfrau plant rydych wedi'u darllen, ynghyd â chrynodeb byr o sut y gallai'r rhain gael eu defnyddio yn yr amgylchedd dysgu. Efallai yr hoffech ystyried a yw'r llyfrau yn addas ar gyfer darllen yn uchel i ddosbarth o blant; eu rhannu gyda grŵp bach neu yn fwy addas ar gyfer darllen pâr neu unigol.

Essential background reading/tasks –English Language and Literacy

Pre and post-session tasks will be given as appropriate during the module. However, as an ongoing aspect of development, you are encouraged to widen your knowledge of **children's literature**.

Please keep a list of children's books you have read, together with a short summary of how these might be used in the learning environment. You may like to consider whether the books are suitable for reading aloud to a class of children; being shared with a small group or are more suitable for paired or individual reading.

4a. Crynodeb o'r modiwl - IAITH

Llinyn Iaith Cymraeg

Yn y modiwl hwn, byddwch yn cael eich cyflwyno i addysgu a dysgu iaith yn yr ysgol gynradd. Mae hyn yn cynnwys y tri llinyn:

- Llafaredd
- Darllen
- Ysgrifennu

Er mwyn bod yn athro iaith rhagorol, mae angen i chi ysbrydoli ac ennyn diddordeb plant drwy feithrin cariad at ddysgu. Rhaid i chi hefyd ddeall y ffyrdd y mae plant yn caffael sgiliau Llythrennedd.

Mae'n bwysig eich bod yn hyderus o ran gwybodaeth pwnc personol yng nhyddestun llafaredd, darllen ac ysgrifennu a dylech fod yn ymwybodol bod angen eich defnydd o iaith i wasanaethu fel model rôl ar gyfer y plant a'r proffesiwn yn ehangach.

Am y rheswm hwn, mae gan y modiwl hwn gysylltiadau agos â ECAD4002C 'Yr Iaith ar Daith 1' lle cesglir tystiolaeth o'ch gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o'r iaith Gymraeg a'ch hyder wrth ei defnyddio ar lafar ac ar bapur gyda'r nod o gyflwyno'r Gymraeg yn gywir wrth addysgu yn y sector cynradd.

Yn achos y myfyrwyr sydd â materion mwy difrifol yn ymwneud ag iaith lafar a/neu ysgrifenedig, mae'r Brifysgol yn darparu cymorth penodol – cysylltwch â Gwasanaethau Myfyrwyr neu siaradwch â'ch tiwtor personol am ragor o wybodaeth.

English Language Strand

In this module, you will be introduced to the teaching and learning of the English language in Welsh medium primary schools. This includes the three strands of:

- Oracy
- Reading
- Writing

In order to be an excellent teacher of language, you need to inspire and engage children by fostering a love of learning. You must also understand the ways in which children acquire the skills of Literacy.

It is important that you are confident in your own subject knowledge relating to oracy, reading and writing and you should be aware that your use of language needs to serve as a role model for the children and the wider profession.

If you have any particular difficulty relating to written and/or spoken language, then please contact Student Services or speak to your personal tutor for more information. The University does offer specific support.

Rhennir cynnwys a threfn y sesiynau iaith yn y ddarlith gychwynnol. Noder, gall trefn y sesiynau hyn newid yn ôl yr amgylchiadau.

4b. Crynodeb o'r modiwl - MATHEMATEG

Rhennir cynnwys a threfn y sesiynau Mathemateg yn y ddarlith gychwynnol. Noder, gall trefn y sesiynau hyn newid yn ôl yr amgylchiadau

5. Cyfeirnodau

Rhestr Ddarllen

Hanfodol

Y myfyrwyr i lawr lwytho copïau o'r canllawiau cyfredol perthnasol a'r Cwricwlwm Cenedlaethol o wefan Llywodraeth Cymru ynghyd ag adroddiad Yr Athro Donaldson, 'Dyfodol Llwyddiannus', sy'n amlinellu cwricwlwm newydd i Gymru.

Donaldson, G. (2015) **Dyfodol Llwyddiannus**. Hawlfraint y Goron. Ar gael yn: <http://gov.wales/docs/dcells/publications/150317-successful-futures-cym.pdf>

Yr Adran Addysg a Sgiliau (2015) **Cwricwlwm Cymru Fframwaith y Cyfnod Sylfaen (Diwygiedig 2015)**. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael yn : <http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/150803-fp-framework-cy.pdf>

Yr Adran Addysg a Sgiliau (2015) **Cwricwlwm Cymru: Rhaglen Astudio ar gyfer Cymraeg, Cyfnodau Allweddol 2-4**. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael yn : <http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/150717-nc-welsh-cy-ve3.pdf>

Yr Adran Addysg a Sgiliau (2015) **Cwricwlwm Cymru: Rhaglen Astudio ar gyfer Mathemateg, Cyfnodau Allweddol 2-4**. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael yn: <http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/150717-nc-maths-cy-v2.pdf>

Os ydych yn dymuno prynu testun i'ch cefnogi yn y modiwl hwn, byddem yn awgrymu eich bod yn prynu'r canlynol: -

Woolley, G. (2014) **Developing Literacy in the Primary Classroom**. London: SAGE

Gamble, N. (2013) **Exploring Children's Literature**. London: SAGE

Haylock, D. and Cockburn, A. (2013) **Understanding Mathematics for Young Children: A Quick Guide for Teachers of Children 3 – 8**. London: SAGE

Argymhellir (Mae'r rhain ar gael yn y llyfrgell)

Corbett, P. (2009) **O Ddweud Stori i Greu Stori CA1**. Caerdydd: CBAC.

Corbett, P. (2009) **O Ddweud Stori i Greu Stori CA2**. Caerdydd: CBAC.

Mudiad Ysgolion Meithrin (2008) **Siarad Dwy Iaith**

Redknap, C. (2006) **Addysg Cyfrwng Cymraeg a Dwyieithog**. Bangor: Ysgol Addysg, Prifysgol Cymru.

Baker, C. (2003) **A Parents' and Teachers' Guide to Bilingualism 2nd Edition**. Clevedon: Multilingual Matters Ltd

Baker, C. & Wright, W. (2017) **Foundations of Bilingual Education and Bilingualism 6th Edition**. Bristol: Multilingual Matters

Corbett, P. (2007) **Speak out! Ages 9-11. Great Ideas for Speaking and Listening Activities.** London: A&C Black.

Gross J. (2013) **Time to Talk.** London: Routledge

Bower, V. (2014) **Developing Early Literacy 0 to 8 from theory to practice.** London: SAGE

Goodwin, P. (2010) **The Literate Classroom.** London: David Fulton.

Cremin, T. (2009) **Teaching English Creatively (Primary Teaching Guides).** Oxon: Routledge.

Medwell, J. et al. (2011) **Primary English: knowledge and understanding.** 5th edn. Exeter: Learning Matters.

Medwell, J. et al. (2011) **Primary English: teaching theory and practice.** 5th edn. Exeter: Learning Matters.

Hanson, A. (ed.) (2011) **Children's Errors in Mathematics: Understanding Common Misconceptions in the Primary School.** London: SAGE

Haylock, D. (2014) **Mathematics Explained for Primary Teachers** 4th ed. London: SAGE

Taylor, H. and Harris, A. (2014) **Learning and Teaching Mathematics 0-8 .** London: SAGE

Grigg R. (2010) **Becoming an Outstanding Primary School Teacher.** Harlow: Pearson.

Smith, P. & Dawes, L. (2014) **Subject Teaching in Primary Education.** London: SAGE

Blandford, S. & Knowles, C. (2016) **Developing Professional Practice 0 – 7.** London: Routledge

Siencyn, S.W. (2008) **Y Plentyn Bach Cyflwyniad i Astudiaethau Plentyndod Cynnar.** Caerfyrddin: Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant

Siencyn, S.W. (2010) **Y Cyfnod Sylfaen 3 – 7 oed Athroniaeth, Ymchwil ac Ymarfer.** Caerfyrddin: Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant

Jarvis, P. (2006) **Towards a Comprehensive Theory of Human Learning.** London: Routledge

Conkbayir, M. & Pascal, Ch. (2014) **Early Childhood Theories and Contemporary Issues.** London: Bloomsbury

Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (2008) **Addysgeg Dysgu ac Addysgu.** Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru. Ar gael yn: <http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/130212ltpedagogocy.pdf>

Cyfnodolion & Chylchgronau

Cylchgrawn Addysg Cymru/ The Welsh Journal of Education
TES
Literacy
Journal of Early Childhood Literacy
English in Education
Research in Mathematics Education

Gwefannau

Cyd-bwyllgor Addysg Cymru www.cbac.co.uk
 Cyngor Llyfrau Cymru <http://www.cllic.org.uk>
 Cyngor Llyfrau Cymraeg www.gwales.com
 Learning Wales-www.learning.wales.gov.uk

Estyn

National Centre for Excellence in Mathematics Teaching www.ncetm.org.uk

Hwb-www.hwb.gov.uk

Literacy Trust - www.literacytrust.org.uk

Literacy shed

Mathematics Shed www.mathematicsshed.com

National Association of Teachers of English - www.nate.org.uk

Nrichmaths-<http://nrich.maths.org.uk/>

6. Asesu: Aseiniad

Beth yw'r wybodaeth allweddol?

Aseiniad: Trafodwch pam fod gwybodaeth pwnc athrawon yn bwysig mewn perthynas ag addysgu iaith a Mathemateg mewn ysgolion cynradd yng Nghymru.

Nod: Yn y drafodaeth, bydd angen i chi ddangos **pam** fod gwybodaeth pwnc athro yn bwysig mewn perthynas ag addysgu iaith a Mathemateg mewn ysgolion cynradd yng Nghymru.

- Meddylwch am y sgiliau iaith a Mathemategol rydych wedi'u harsylwi ar Brofiad Addysgu Proffesiynol. Er enghraifft, addysgu darllen neu rif.
- Adfyfyrwch ar addysgu'r sgiliau hyn gan gyfeirio at rôl gwybodaeth pwnc athro wrth ddatblygu dysgu'r plant.
- Mae gwybodaeth bynciol mewn iaith a mathemateg yn cynnwys dealltwriaeth o sut mae plant yn dysgu iaith a Mathemateg. Dylai trafodaeth ar wybodaeth bwnc gynnwys cymhwyso theori dysgu (e.e. adeileddiaeth ac adeileddiaeth cymdeithasol) i ddysgu iaith a mathemateg.

Strwythur Aseiniad

Cyflwyniad
(tua 300 gair)



Yn y cyflwyniad dylech ddangos eich bod yn deall ystyr teitl yr aseiniad a'r hyn rydych yn bwriadu trafod. Lluniwch amlinelliad **cryno** o gyd-destun y sgiliau rydych wedi dewis trafod a gwnewch yn siŵr eich bod yn cynnwys:

- Oed/ Blwyddyn Addysg
- Sgil Iaith & Sgil Mathemateg i'w datblygu (gan gyfeirio at linyddau, elfennau a'r agweddau yn y Cwricwlwm Diwygiedig)

MAE ANGEN OSGOI'R ARFER O DDISGRIFIO UNRHYW WEITHGAREDDAU/ GWERSI

Canllaw Arddull Ysgrifennu!

Iaith ffurfiol e.e. terfyniad 'ir' i ferfau e.e. gwelir/cyfeirir (amhersonol presennol) h.y. siarad yn gyffredinol ac nid yn perthyn i berson. Defnyddier y terfyniad 'wyd' e.e. gwelwyd/cyfeiriwyd, ar gyfer y gorffennol. Dylech gyfeirio at eich ffeil ECAD4002C ar gyfer arweiniad pellach.

Prif gorff yr aseiniad
(tua 2,500 gair)



Mae rhan yma o'ch aseiniad yn mynd i gynnwys paragraffau amrywiol (blociau adeiladu) a fydd yn ffurfio'ch sgwrs. Fe'ch cynghorir i drefnu'ch gwaith yn ddau ran: un ar gyfer iaith ac un ar gyfer Mathemateg.

O fewn pob adran bydd angen i chi gynnwys:

- adfyfrio ar sut wnaeth eich gwybodaeth pwnc effeithio ar ddysgu'r plant;
- cyfeiriad at ddarllen sy'n perthyn i wybodaeth pwnc athro a dysgu iaith a Mathemateg;
- cyfeiriad at addysgeg sy'n dangos sut fyddai'n bosib i blant ddysgu eich sgiliau dewisol.

Pa lenyddiaeth ddylwn gynnwys?

Ar gyfer dogfennau polisi, sicrhewch eich bod yn cyfeirio at ddogfennau perthnasol i'r system addysg yng Nghymru e.e. Estyn, Llywodraeth Cymru ac adroddiad Yr Athro Donaldson 'Dyfodol Llwyddiannus' sy'n amlinellu cwricwlwm newydd i Gymru.

Ar y lefel yma, disgwylir i chi ffocysu eich darllen ar lyfrau academiaidd ac erthyglau, hynny yw, llyfrau ac erthyglau y byddech yn debygol o'u canfod yn llyfrgell y

Brifysgol. Gofalwch rhag or ddibynnu ar wefannau neu erthyglau bapur newydd/ cylchgronau a all gael eu hystyried yn 'anacademaidd'.

Faint o lenyddiaeth ddylwn i gynnwys?

Nid oes rhif penodol o destunau. Mae'n well o lawer i ddefnyddio nifer yn llai o destunau perthnasol penodedig na defnyddio rhestr hir a hynny'n ddibwrpas. Mae'r cyfrif geiriau wedi'i gynllunio i'ch annog i ddewis a dethol wrth ddarllen.

Canllaw Ysgrifennu

Cysylltwch eich paragraffau yn gelfydd gan amlygu'ch dadl e.e. Fodd bynnag, Er hyn, Ar wahan i yn ogytal â'r cysylllteiriau,: ond, hefyd, ac eithrio, ar wahân i, namyn, heblaw, oddieithr. Toliwch ar ddefnydd o ddyfyniadau uniongyrchol. Aralleiriwch er mwyn amlygu dealltwriaeth.

Wrth gyflwyno'r ddadl academaidd (adolygu llenyddiaeth, methodoleg ac ati) yna dylech ysgrifennu yn y trydydd person e.e. Gwelodd / Nododd/ Canfyddodd neu'r amhersonol e.e. Gwelir/ Nodir/ Canfyddir. Wrth fyfyrío ar brofiad ysgol gellir ysgrifennu yn y person cyntaf h.y.'ais' (Arsylwaís yn nosbarth Blwyddyn 1); byddaf (wrth adfyfyrío - gweler isod).

Gofalwch wrth gyfeirnodí - cyfeiriwch at y llawlyfr ar Moodle.

**Casgliad/ Clo
(tua 200 gair)**



Yn yr adran yma, dylech ddod â'ch trafodaeth i fwcl drwy:-

- adnabod cryfderau a chyfyngiadau yn eich ymarfer yng nghyd-destun iaith a Mathemateg a pherthynas hyn â gwybodaeth pwnc athro;
- adfyfyrwch ar eich camau datblygu dilynol yng nghyd-destun gwybodaeth pwnc ar gyfer addysgu iaith a Mathemateg;
- gwerthuswch bwysigrwydd gwybodaeth pwnc athro ar gyfer iaith a Mathemateg.

Canllaw Ysgrifennu

Byddwch yn adfyfyriol gan osod targedau personol.
Byddwch yn gryno ac i'r pwynt.
Cyfeiriwch at y ffordd ymlaen.

Rhestr Cyfeirnodau


Rhestr Cyfeirnodau (nid o fewn y cyfrif geiriau)

Mae cyfeirnodi cywir yn allweddol bwysig fel bod modd cydnabod eiddo deallusol.

*Defnyddiwch y canllaw cyfeirnodi (ar gael ar Moodle) ar bob cyfrif wrth lunio'ch rhestr cyfeirnodau.

Dylech gyfeirnodi testunau o fewn eich aseiniad yn unig. NID OES angen atodi rhestr ddarllen (h.y. nid oes angen rhestru unrhyw destun a ddarllenwyd ond ni chyfeiriwyd ato o fewn yr aseiniad).

Mae'n bwysig i gofio bod cyfeirnodi yn broses ddwy ffordd a bydd y marciwr yn talu sylw i'r ddwy agwedd.



Canllawiau Atodol yn Llawlyfr Sgiliau Astudio

-RHAID i bob myfyriwr sicrhau bod rhif myfyriwr cywir ar bob tudalen o'i waith.
-RHAID i bob tudalen a gyflwynir bodloni gofynion yr Ysgol (e.e. o ran paragraffu, y bwlch rhwng llinellau ac ati) a restrir yn y Llawlyfr Sgiliau Astudio, er enghraifft fel y nodwyd:-

(i) Arddull y ffont – Times New Roman, maint 12 ar gyfer testun ac 14 ar gyfer penawdau

(ii) Bwlch 1.5 rhwng llinellau ac ymylon tudalen 2.5 cm

(iii) Mewnosod dyfyniadau hirach na 3 llinell; gofod 1 llinell

(iv) Rhaid wrth ofod un llinell rhwng paragraffau, paragraffau gael eu halinio

(v) Tudalennau (dylid rhifo pob tudalen)

(vi) Cynnwys traethawd o fewn 10% o'r cyfyngiad geiriau (cyn cyfeirnodau)

Rhaid i'r aseiniad gael ei gyflwyno drwy Turnitin :-

Dyddiad & Amser Cyflwyno	Dydd Mawrth, 24 Ebrill 2018 12 o'r gloch
Dyddiad & Amser Dychwelyd	Dydd Iau, 24 Mai 2018 5 o'r gloch

Atodiadau

1. Cefnogaeth ar gyfer ysgrifennu academaidd
2. Cefnogaeth ar gyfer ysgrifennu beirniadol

Gwefannau defnyddiol:

<http://www.reading.ac.uk/internal/studyadvice/Studyresources/Reading/sta-academicreading.aspx>

Cofiwch ddyfalbarhau gyda darllen academaidd a datblygu eich stamina darllen; gall dysgu unrhyw sgil newydd fod yn flinedig ar y dechrau.

Rhai dolenni defnyddiol i gefnogi ysgrifennu beirniadol:

<http://www2.le.ac.uk/offices/ld/resources/writing/writing-resources/critical-writing>

<http://library.bcu.ac.uk/learner/Writing%20index.htm>

